Newyddion a gwybodaeth i Gymru gan:
Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Tŷ Baltig, Sgwâr Mount Stuart, Bae Caerdydd
CF10 5FH ✆ 029 2043 1700 ✆ 029 2043 1701
www.wcva.org.uk ✆ 0800 2888 329

Rhowch gronfeydd cwsg i'r sector, medd WCVA

Mae WCVA yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i gytuno y dylid defnyddio cyllid o gyfrifon cwsg mewn banciau a chymdeithasau adeiladu yn gyfan gwbl i gyllido gweithgarwch yn y trydydd sector.

Mewn ymateb i ymgynghoriad y Gronfa Loteri Fawr, bydd WCVA yn dweud y dylai'r prif ddosbarthwr y Gronfa Loteri Fawr geisio cynyddu manteision y ffynhonnell newydd o gyllid mewn ffyrdd sy'n darparu manteision parhaus i Gymru.

Gellid cyflawni hyn drwy:

- ddefnyddio'r holl arian neu ran sylweddol ohono i greu buddsoddiadau math gwaddol ar gyfer pob un o ddau faes blaenoriaeth Llywodraeth y Cynulliad sef pobl ifanc a newid yn yr hinsawdd.
- byddai'r gwaddol yn darparu, o'r llog a enillir, llif incwm am byth ar gyfer gweithredu cymunedol ar raddfa fach am gyn hired ag yr asesir bod gweithredu o'r fath yn cyflawni canlyniadau ymarferol ar gyfer y naill flaenoriaeth a'r llall. Gellid ailgyfeirio'r arian neu ei ryddhau at ddibenion refeniw yn y dyfodol os byddai angen.
- ac ystyried natur y blaenoriaethau a gynigir, arian o gyfrifon cwsg yn adeiladu ar ac yn ychwanegu gwerth at fentrau pobl ifanc a newid yn yr hinsawdd sydd eisoes ar waith. Pan fydd mecanweithiau cyllido presennol ar waith, mae'n bosibl mynd i bartneriaeth gyda'r rhain yn hytrach na chreu - a gwyro cyllid i - fecanweithiau gweinyddu cyllido paralel.

Cafodd yr ymgynghoriad ar weithredu cynllun cyfrifon cwsg ei gyhoeddi'n ddiweddar gan Weinidog Llywodraeth Cynulliad Cymru dros Dreftadaeth, Alun Ffred Jones.

Dywedodd y byddai deddfwriaeth sy'n cael ei hystyried gan y Senedd ar hyn o bryd yn caniatáu i arian mewn cyfrifon nad oedd cwsmeriaid wedi eu defnyddio ers o leiaf 15 mlynedd gael ei ail-fuddsoddi mewn cymunedau ledled y DU, ar yr un pryd â chadw hawliau pobl i gael ad-daliad os oeddent yn nodi eu hasedau.

Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi nodi dwy flaenoriaeth ar gyfer y Cynllun Cyfrifon Cwsg yng Nghymru; 'ail ymgysylltu pobl ifanc â'r gymuned ehangach' a 'gweithredu cymunedol i gyflawni amgylcheddau lleol glân, iach a chynaliadwy.'

Bydd cyllid o gyfrifon cwsg yn rhoi hwb sylweddol cychwynnol o arian yng Nghymru, a symiau llai mewn blynyddoedd dilynol.

'Mae'n debyg nad defnyddio'r dyraniad cychwynnol ar gyfer prosiectau ar raddfa fawr yw'r ffordd fwyaf gynaliadwy o wario'r cyllid newydd hwn,' meddai Prif Weithredwr WCVA, Graham Benfield, OBE. 'Rydym felly'n argymell y dylai cyfarwyddiadau Llywodraeth Cynulliad Cymru i'r Gronfa Loteri Fawr ofyn iddi gynyddu manteision yr arian o gyfrifon cwsg, boed hwy'n cael eu buddsoddi fel gwaddol ai peidio, drwy weithio gyda'r mentrau presennol perthnasol fel partneriaid darparu.

'Er enghraifft, mae GwirVol (pobl ifanc) ac Amgylchedd Cymru (yr amgylchedd a newid yn yr hinsawdd) yn fentrau strategol Llywodraeth y Cynulliad sydd eisoes ar waith a gallent fod yn bartneriaid darparu priodol ar gyfer cyllid cyfrifon cwsg'.

Gellir darllen ymateb WCVA yn llawn drwy edrych ar: www.wcva.org.uk/policy

Cofrestr elusennau ar-lein

Bydd hi nawr yn haws cael gafael ar wybodaeth am elusennau, yn dilyn lansio cofrestr ar-lein y Comisiwn Elusennau. Nod y gwasanaeth newydd yw gwneud y trydydd sector yn fwy tryloyw a'i gwneud yn haws i bobl gael gafael ar wybodaeth am elusennau.

Mae'r gofrestr newydd yn cynnwys graffeg lliw a manylion gweithgareddau, ymddiriedolwyr, gwybodaeth ariannol allweddol ac yw'r elusennau'n ffeilio eu cyfrifon a'u ffurflenni mewn da bryd ai peidio. Ar gyfer elusennau gydag incwm dros £500,000, mae proffiliau ariannol newydd yn dangos yr hyn y maent yn ei gael a sut maent yn gwario eu harian.

Mae nodweddion allweddol y gofrestr ar-lein yn cynnwys:

- **Proffil manwl ar gyfer elusennau gydag incwm dros £500,000, gan ddangos incwm a gwariant yr elusen, faint o wirfoddolwyr a gweithwyr sydd ganddynt a'u hanes o ran cyflwyno cyfrifon. Mae proffil ariannol byrrach ar gael ar gyfer elusennau llai.**
- **Cyfleusterau chwilio gwell ar gyfer elusennau sydd newydd gofrestru, elusennau nad ydynt wedi cofrestru eu cyfrifon gyda'r Comisiwn mewn da bryd, ac elusennau sy'n gweithio mewn maes penodol neu ardal ddaearyddol benodol.**
- **Dewisiadau argraffu a chroes gyfeirio ymddiriedolwyr newydd sy'n dangos os yw ymddiriedolwyr hefyd yn ymddiriedolwr ar elusennau eraill.**
- **Adran adborth ar y dudalen Croeso sy'n gwahodd defnyddwyr i roi gwybod i'r Comisiwn beth maent yn ei feddwl o'r gofrestr ar-lein newydd a sut y gellir ei gwella ymhellach.**

I gael gwybod mwy am y gofrestr newydd ewch i www.charity-commission.gov.uk/showcharity/registerofcharities.

Newyddion a gwybodaeth i Gymru gan:
Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Tŷ Baltig, Sgwâr Mount Stuart, Bae Caerdydd
CF10 5FH ☎ 029 2043 1700 ✆ 029 2043 1701
www.wcva.org.uk ☎ 0800 2888 329

Rhaglen hyfforddiant i grwpiau gwirfoddol ym mhob cwr o Gymru

Mae rhaglen newydd Cyrsiau i Gymunedau Cymru ar gael yn cynnig hyfforddiant fydd yn helpu mudiadau i ddelio â materion hanfodol megis dod o hyd i gyllid a rheoli asedau.

Lansiodd WCVA, y cynghorau gwirfoddol sirol a chanolfannau gwirfoddoli y rhaglen hyfforddi fis Ebrill ac mae'r ail raglen yn cynnig 54 o gyrsiau.

Bydd rhai yn gyrsiau undydd ac eraill yn hanner diwrnod - a fydd yn cael eu cyflwyno gan aelodau o staff WCVA a chynghorau gwirfoddol sirol, a bydd rhai mudiadau'n dod i mewn i ddarparu hyfforddiant yn rhai o'r meysydd arbenigol a nodwyd hefyd. Dim ond £20 neu lai y dydd yw cost y cyrsiau - sy'n golygu eu bod o fewn cyrraedd grwpiau gwirfoddol mawr a bach.

Dywedodd Kate Thomas, Rheolwraig Hyfforddiant WCVA: 'Mae'n amlwg er bod cyfoeth o hyfforddiant yn cael ei ddarparu i'r sector, prin fu'r cysondeb o ran darparu hyfforddiant craidd i gefnogi grwpiau gwirfoddol i sefydlu a datblygu eu mudiad; cefnogi staff, gwirfoddolwyr ac ymddiriedolwyr; codi arian; rheoli eu hasedau; a darparu gwasanaethau gwell.

'Bydd Cyrsiau ar gyfer Cymunedau Cymru yn darparu rhaglen fforddiadwy o gyrsiau y mae eu hansawdd wedi cael eu sicrhau mewn ardaloedd lleol a rhanbarthol ledled Cymru.'

Cynhelir y cyrsiau ledled Cymru a byddant yn edrych ar faterion megis ffurfioli mudiadau, trefnu pwyllgor, monitro a gwerthuso gwaith mudiad, manteisio i'r eithaf ar TG a gweithio gydag eraill.

Mae copiau o Cyrsiau ar gyfer Cymunedau Cymru ar gael oddi wrth Lein Gymorth WCVA ar 0800 2888 329, help@wcva.org.uk, eich cyngor gwirfoddol sirol lleol, www.cyrsiauigymunedaucymru.org.uk, neu www.wcva.org.uk.

Cyfle i chi ddylanwadu ar eich dyfodol ariannol!

Dewch i ddysgu mwy am yr opsiynau cynllunio a chyllido sydd ar gael i chi a'ch mudiad. Mae rhaglen hyfforddi Cyllid Cynaliadwy Cymru WCVA yn cynnig dulliau ac adnoddau ymarferol mewn modd rhyngweithiol fydd yn eich helpu i adeiladu dyfodol ariannol cynaliadwy.



Mae'r rhaglen yn cynnwys wyth niwrnod o hyfforddiant sy'n cyflwyno mudiadau i'r opsiynau cynllunio ac ariannu amrywiol sydd ar gael i'r sector. Cynllunnir pob cwrs hyfforddiant gyda'r nod o sicrhau'r canlyniadau dysgu gorau posibl drwy ddarparu cymysgedd o gyflwyniadau, ymarferion gr_p, trafodaethau agored a rhwydweithio. Bydd yr holl gyfranogwyr yn cael pecyn cynhwysfawr o ddulliau ac adnoddau i'w defnyddio yn eu man gwaith.

Mae llefydd ar gael yn rhaglen 2009:

Cynllunio busnes a chynllunio strategol

- **20 Ionawr 2009 - Caernarfon (trwy gyfrwng y Gymraeg)**
- **22 Ionawr 2009 - Caerfyrddin**

Paratoi strategaeth codi arian gynaliadwy

- **10 Chwefror 2009 - Aberystwyth**
- **24 Chwefror 2009 - Aberafan**
- **25 Chwefror 2009 - Aberafan**

Grantiau - addas ar gyfer cyllido

- **10 Mawrth 2009 - Y Rhyl**
- **24 Mawrth 2009 - Castell-nedd**
- **25 Mawrth 2009 - Castell-nedd**

Helpwch eich mudiad i ddeall pwysigrwydd a manteision cynllunio tymor hir a sut i sicrhau cyfuniad cyllido cynaliadwy. Archebwch eich lle nawr!

I gael gwybod mwy, ewch i www.sustainablefundingcymru.org.uk neu cysylltwch â Lein Gymorth WCVA ar 0800 2888 329 neu help@wcva.org.uk. Mae'r cynghorau gwirfoddol sirol (CGS) hefyd yn cyflenwi'r hyfforddiant hwn ar hyd a lled Cymru. I gael mwy o fanylion, ewch i www.coursesforcommunities.org.uk

Gan fod Cyllid Cynaliadwy Cymru'n cael ei gefnogi gan y Gronfa Loteri Fawr, dim ond i fudiadau gwirfoddol a chymunedol sy'n gweithio yng Nghymru y mae'r hyfforddiant hwn ar gael ac fe'i cynigir am bris gostyngol o ddim mwy nag £20 y pen.

Cefnogwyd gan Y Loteri Genedlaethol
Supported by The National Lottery®

Newyddion a gwybodaeth i Gymru gan:
Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Tŷ Baltig, Sgwâr Mount Stuart, Bae Caerdydd
CF10 5FH ☎ 029 2043 1700 📠 029 2043 1701
www.wcva.org.uk ☎ 0800 2888 329

Recriwtio trydydd sector Cymru

Ers ei lansio ym mis Medi 2006, mae'r fenter Goodmoves wedi gweddnewid recriwtio yn nhrydydd sector Cymru.

Mae Goodmoves - menter ar y cyd rhwng WCVA a Big Issue Cymru - yn wasanaeth hysbysebu amlgyfrwng a sefydlwyd i roi dull gweithredu rhatach ac sydd wedi'i dargedu'n well ar gyfer recriwtio staff ac ymddiriedolwyr newydd i fudiadau gwirfoddol.

Bydd swyddi gwag a roddir yn Goodmoves yn ymddangos mewn pum cyfrwng gwahanol: Big Issue Cymru a Big Issue South West - rhifynnau wythnosol sy'n cyrraedd dros 85,000 o bobl; Network Jobs - atodiad recriwtio wythnosol sy'n cyrraedd dros 1,600 o fudiadau gwirfoddol sy'n perthyn i WCVA; www.goodmoves.org.uk - calon gwasanaeth Goodmoves sy'n caniatáu i ymwelwyr chwilio am y swydd iawn yn yr ardal iawn; a www.wcva.org.uk - hafan WCVA y mae dros 50,000 o bobl yn ymweld â hi bob mis.

Ers ei lansio, mae WCVA wedi defnyddio Goodmoves ar gyfer ei holl swyddi gwag. Dywedodd Rheolwraig Cyfathrebu WCVA, Lynne Reynolds: 'Mae Goodmoves wedi bod yn darparu gwasanaeth gwerthfawr dros ben i fudiadau gwirfoddol yng Nghymru dros y flwyddyn ddiwethaf.

'Mae'r gwasanaeth wedi'i dargedu'n ofalus ac mae'n cyrraedd ymhell i'r trydydd sector. O ganlyniad, mae mudiadau'n cael cronfa o ymgeiswyr sy'n fwy addas.'

Yn gynharach eleni, roedd Goodmoves wedi cynnwys ei swydd gyda'r cyflog uchaf hyd yn hyn ar ôl i Merthyr Valleys Homes hysbysebu ei swydd ar gyfer Prif Weithredwr gyda chyflog o £90,000 ymhlith pedair tudalen o swyddi yn y trydydd sector yng Nghymru.

Ychwanegodd Lynne Reynolds: 'Mae'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr Goodmoves wedi defnyddio'r gwasanaeth eto ar ôl eu tro cyntaf, sy'n brawf o'r profiadau cadarnhaol a gawsant gyda'r gwasanaeth.'

Mae'n hawdd defnyddio gwasanaeth Goodmoves, dim ond un ffi a godir ac nid oes dim costau cudd. Mae'r pris a roddir i fudiadau'n cynnwys cymryd copi a'r holl waith dylunio. Mae gwefan Goodmoves hefyd yn cynnig manteision ychwanegol, heb gost ychwanegol, megis: proffil eich mudiad, pecynnau ymgeisio y gellir eu llwytho i lawr, a chyhoeddi ar-lein ar unwaith, os bydd angen

Os hoffai eich mudiad ystyried hysbysebu ei swyddi gwag yn Goodmoves, cysylltwch â Matt Bates yn Big Issue Cymru ar 029 2025 5672 neu e-bostiwch matt@bigissuecymru.co.uk.

Cyfle i fynegi barn ar faterion lleol

Ydy gwasanaethau cyhoeddus o fewn cyrraedd i'ch cymuned? Oes yna dai ar gael o fewn y fro i'ch pobl ifanc? Oes sôn am werthu'r cae ffwtbol lleol i adeiladu archfarchnad? Neu ydych chi'n benderfynol o atal tip rhag cael ei agor tu ôl i'ch pentref? Mae a wnelo hyn oll â chynllunio defnydd tir.

Os ydy'ch mudiad am ddylanwadu ar benderfyniadau cynllunio yn eich bro, gall Cymorth Cynllunio Cymru (CCC) gynnig help llaw. Elusen gofrestredig ydy CCC sy'n darparu cyngor a chymorth proffesiynol ac annibynnol am ddim ar holl agweddau cynllunio gwlad a thref yng Nghymru. Gwna hyn drwy rwydwaith o wirfoddolwyr sy i gyd yn gynllunwyr cymwysedig.

Mae CCC yn cynnal llinell gymorth lle gellir cael cyngor ar achosion cynllunio unigol. Gwasanaeth rhad i bawb ydy o, boed yn unigolion neu'n grwpiau, sydd yn methu fforddio ymgynghorydd cynllunio.

Prif nod CCC ydy galluogi grwpiau cymunedol i gyfranogi yn y system gynllunio. Os ydy'ch grwp cymunedol neu wirfoddol am ddysgu sut i roi llais i'ch cymuned mewn penderfyniadau sy'n effeithio eich ardal lleol, gall gweithwyr datblygu CCC helpu i drefnu sgyrsiau a seminarau i chi.

Dyma rai o'r grwpiau a gafodd cymorth CCC yn y gorffennol

- **Ymddiriedolaeth Cefnogwyr Clwb Pêl-Droed Wrecsam: Roedd yr Ymddiriedolaeth yn ofni y byddai perchennog y clwb am werthu safle'r Cae Ras ar gyfer datblygiad tai neu fasnachol. Anogodd CCC yr Ymddiriedolaeth i gysylltu â Chyngor Wrecsam i weld a oedd modd clustnodi safle'r Cae Ras fel cae pêl-droed yn y cynllun ar gyfer yr ardal, sy'n cael ei baratoi ar hyn o bryd. Os llwyddan nhw i gael y safle wedi'i glustnodi ar gyfer defnydd chwaraeon, bydd hi'n anodd iawn wedyn i ddatblygu'r tir ar gyfer defnydd gwahanol.**
- **Rhwydwaith Cefnogi Cymunedau'n Gyntaf: Mae CCC wedi cynnal tri seminar i gydlynwyr ac aelodau o fyrddau Cymunedau'n Gyntaf ledled Cymru'n ddiweddar. Roedd y seminarau o dan y teitl 'Cael Clust i'ch Llais' yn esbonio lle gall grwpiau Cymunedau'n Gyntaf ddylanwadu ar gynlluniau datblygu ymlaen llaw yn eu broydd yn ogystal â chael dylanwad gwirioneddol ar ddatblygiadau unigol.**

Os ydych am gael help Cymorth Cynllunio Cymru, ffoniwch y Llinell Gymorth ar 029 2048 5765 neu ewch i www.cymorthcynlluniocymru.org.uk.

Newyddion a gwybodaeth i Gymru gan:
Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Tŷ Baltig, Sgwâr Mount Stuart, Bae Caerdydd
CF10 5FH ☎ 029 2043 1700 ✆ 029 2043 1701
www.wcva.org.uk ☎ 0800 2888 329

Diwygio Lles - cyfle i dreialu Lwfans Cymunedol?

Mae ymateb WCVA i gynigion y Llywodraeth ar gyfer diwygio lles wedi rhybuddio yn erbyn dull gweithredu sy'n seiliedig ar orfodi, ac mae wedi annog y Llywodraeth i dreialu'r syniad o Lwfans Cymunedol.

Mae cynlluniau'r Llywodraeth, sydd yn *No one written off: reforming welfare to reward responsibility*, yn cynnwys symud at system sy'n seiliedig ar ddim ond dau fudd-dal ar gyfer pobl oedran gweithio; y Lwfans Cyflogaeth a Chynhaliaeth ar gyfer y rheini na allant weithio am gyfnod oherwydd cyflwr meddygol, a Lwfans Ceiswyr Gwaith ar gyfer pawb sy'n gallu gweithio. Bydd mwy o bwyslais ar ddarparu cefnogaeth bersonol i helpu hawlwyr i gael gwaith a'i gadw. Roedd y cynigion yn cynnwys gofyn i bobl ddi-waith weithio yn y gymuned am eu budd-daliadau os ydynt yn aros yn ddi-waith yn y tymor hir.

Dywedodd Phil Jarrold, Dirprwy Brif Weithredwr WCVA: 'Mae mudiadau'r trydydd sector wedi ymateb yn gadarnhaol i gynigion i gynyddu'r help ar gyfer pobl y mae arnynt eisiau gweithio, a chwalu unrhyw rwystrau dianghenraid; ac mae nifer o fudiadau mewn sefyllfa dda iawn i chwarae rhan i helpu i gyflawni hyn. Ond ystyrir y cynigion ar gyfer gofyn i hawlwyr ymgymryd â lleoliadau gwaith cymunedol gyda chryn ofal.

'Nid yw WCVA yn derbyn y cysyniad o wirfoddoli gorfodol fel ateb i ddiwygio lles, ac mae gwir berygl i'r cynigion ddrysu'r gwahaniaeth rhwng gwirfoddoli a gweithgarwch cymunedol gorfodol, a thanseilio diddordeb y cyhoedd mewn gwirfoddoli.

'Yn yr un modd, mae'r un mor bwysig bod unrhyw leoliadau gwaith cymunedol yn ychwanegol o ddifrif, ac nad ydynt yn disodli nac yn tandorri swyddi presennol. Rhaid i leoliadau gwaith cymunedol beidio â bod yn ddewis rhatach sy'n cael effaith andwyol ar swyddi presennol ac ni ddylid eu gweld felly chwaith.'

Mae ymateb WCVA yn dadlau bod cyfranogiad cymunedol nad yw'n orfodol - ar sail wirfoddol neu gyda thâl - yn darparu manteision go iawn i'r unigolion o ran meithrin hyder, ennill sgiliau a phrofiad, yn ogystal ag ar gyfer eu cymunedau. 'Rydym yn cefnogi'n gryf gynnig y Llywodraeth yn y Papur Gwyn Grymuso Cymunedau i dreialu Lwfans Cymunedol,' ychwanegodd Phil Jarrold. 'Byddai hyn yn galluogi mudiadau cymunedol i dalu i bobl am waith sy'n cryfhau eu cymuned heb iddo effeithio ar ddim o'u budd-daliadau. Gellid treialu'r model Lwfans Cymunedol yng Nghymru petai'r Adran Gwaith a Phensiynau'n cytuno, ac efallai bod posibilrwydd dan Gronfeydd Strwythurol Ewrop i wneud hyn.'

Roedd yr ymateb yn pwysleisio'r angen i gefnogi unigolion, gan gynnwys:

- diogelu buddiannau gofalwyr;
- y perygl o roi pwysau diangen ar bobl i chwilio am waith ni waeth beth yw eu hiechyd, a'r angen am sgrinio iechyd sensitif a phriodol;
- yr angen i ystyried materion sy'n ymwneud â gofal plant yn llawn;
- yr angen am ddarpariaeth ddigonol ar gyfer hawlwyr ag anabledd neu nam ar eu synhwyrau;
- yr angen am hawliau apelio clir a hwylus i bawb.

Roedd yr ymateb hefyd yn croesawu'r gydnabyddiaeth y gallai mudiadau'r trydydd sector chwarae rhan werthfawr iawn o ran gweithredu ffyrdd newydd o weithio gyda hawlwyr a'u cefnogi. Roedd yn codi pryderon, serch hynny, am y drefn arfaethedig i dalu ar sail canlyniadau, ynghyd â chontractau a oedd yn fawr heb fod angen, a all eithrio mudiadau llai sydd yn y sefyllfa orau i weithio gyda grwpiau penodol o gleientiaid. Gyda chleientiaid anos i'w lleoli, bydd angen i'r drefn dalu fod yn realistig ac o fewn cyrraedd, a dylai ystyried yn llawn yr angen am gefnogaeth tymor hwy a dwysach ar gyfer pobl agored i niwed.

Gellir llwytho ymateb WCVA i lawr oddi ar ei wefan yn www.wcva.org.uk/policy neu gysylltu â policy@wcva.org.uk.

Bydd rhifynau nesaf yr atodiad cenedlaethol hwn gan WCVA ar gael ar ddiwedd misoedd Ionawr, Mawrth a Mai 2009.

Deddf Cadw Data 1998. Cedwir a phrosesir manylion cysylltu pob un sy'n derbyn yr *Atodiad Cenedlaethol* gan WCVA ar gyfrifiadur. Defnyddir y wybodaeth gan WCVA i fonitro a hyrwyddo'r sector gwirfoddol yng Nghymru. Datgelir manylion cysylltu i drydydd parti i fod o gymorth yn y broses hwn.